Y GRAWYS 5

ESECIEL 37:1-14; SALM 130;
RHUFEINIAID 8:6-11; IOAN 11:1-45

● **Gweddi agoriadol**

Ar ein taith at y groes
cymerwn egwyl fer
i'n disychedu,
diod o ddŵr bywiol;
bwydo ar dy air,
mwynhau cymdeithas â thi
a'n cymdeithion.
Bendithia ein hamser gyda'n gilydd,
a phan adawn y lle hwn
bydd yn dywysydd ar y ffordd.

● **Moliant**

Arglwydd sofran,
cyffyrddodd dy law
esgyrn sychion ein ffydd;
anadlodd dy air
fywyd newydd ble roedd marwolaeth;
cododd dy Ysbryd ni
o ble roeddem yn gorwedd;
daeth dy gariad â ni adre
ac at dy groes,
a thrwy dy ras
maddeuwyd i ni, rydym yn rhydd.
Halelwia!

● **Cyffes**

Mae dy faddeuant yn llwyr –
dim llyfr nodiadau,
dim cloch atgoffa
i'th atgoffa o'n pechod.
Derbynni y gyffes a gyflwynwn
â breichiau agored
ac yn dyner, fel yr wyt,
yn Dad nefol cariadus,
fe'i rhoi y naill ochr
i'w hanghofio.
Dim dyhead i farnu, dim chwerwder,
dim gweld yn chwith, dim drwgdeimlad,
ddim fel ni,
sy'n dweud 'sori' yn ddigon hawdd
ond sy'n ei chael yn anodd
i faddau yn llwyr.

Maddau i ni, ein Tad,
ein bod yn fwy parod yn aml
i dderbyn maddeuant
nag i faddau,
yn fwy parod i dderbyn dy gariad
nag i'w rannu â'r rheini
sydd wedi'n brifo.
Dysga ni i faddau
fel y maddeui di.

● Diolch

Am ffydd y rhai
a aeth o'n blaen
diolchwn i ti.

Am bawb sydd wedi
ymateb i'th gariad
diolchwn i ti.

Am y rhai a roddodd
eu bywyd drosot ti
diolchwn i ti.

Ti yw'r atgyfodiad a'r bywyd,
a bydd pawb sy'n credu ynot ti,
er iddyn nhw brofi
tristwch neu lawenydd heddiw,
yn mwynhau bywyd yn ei holl lawnder
yn dy dragwyddoldeb.